Archwilio Cymru
Audit Wales

# Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng: Trefniadau ar gyfer Rheoli Galw – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4788A2025

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025. Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti, o ran yr adroddiad hwn.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Ffeithiau a ffigurau allweddol 5

Negeseuon allweddol 7

Argymhellion 9

Adroddiad manwl

Trefniadau cynllunio 12

Mynediad at wasanaethau 14

Trefniadau craffu a monitro 28

Atodiadau

Atodiad 1 – dulliau archwilio 33

Atodiad 2 – meini prawf archwilio 36

Atodiad 3 – ymateb y rheolwyr i argymhellion yr archwiliad 40

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau o adolygiad 2024 yr Archwilydd Cyffredinol o'r trefniadau ar gyfer rheoli galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd). Y gwaith yw ail gam rhaglen waith sy'n canolbwyntio ar sawl elfen o'r system gofal brys a gofal mewn argyfwng yng Nghymru. Adroddir ar y cam cyntaf, a archwiliodd cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion ac effaith llif cleifion ar ofal brys a gofal mewn argyfwng, ar wahân.

2 Mae ein dull yn cydnabod bod y system gofal brys a gofal mewn argyfwng yn gymhleth, lle mae angen i lawer o wahanol sefydliadau gydweithio i ddarparu gofal brys a gofal mewn argyfwng ac i sicrhau bod y system ehangach yn gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon. Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng Llywodraeth Cymru (y Rhaglen Chwe Nod) a lansiwyd yn 2021 sy'n darparu'r cyd-destun ar gyfer ein gwaith. Ar adeg ein gwaith, roedd y system gofal brys a gofal mewn argyfwng yng Nghymru yn parhau i fod o dan bwysau sylweddol.

3 Mae ein gwaith wedi archwilio trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng i leihau pwysau diangen ar y system. Gwnaed y gwaith i helpu i gyflawni dyletswyddau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod yn fodlon bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau'r defnydd effeithiol, effeithiol, a darbodus o'i adnoddau.

4 Gwnaed ein gwaith maes rhwng mis Mai a mis Medi 2024, a gwnaed gwaith dadansoddi data pellach ym mis Tachwedd 2024. Caiff y dulliau a'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith eu crynhoi yn **Atodiadau 1 a 2**.

# Ffeithiau a ffigurau allweddol

| Gwasanaethau Gofal Sylfaenol | |
|---|---|
| **770** | Nifer yr apwyntiadau brys ac acíwt gyda meddygon teulu[1] a oedd ar gael y diwrnod fesul 100,000 o'r boblogaeth meddygon teulu ym mis Medi 2024 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 731. Mae hyn yn ostyngiad o 11.4% ers mis Ebrill 2022. |
| **999** | Nifer y cysylltiadau y tu allan i oriau arferol â meddygon teulu fesul 100,000 o'r boblogaeth meddygon teulu ym mis Gorffennaf 2024 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 973. |
| **589** | Nifer y cysylltiadau yn y Ganolfan Gofal Sylfaenol Brys fesul 100,000 o'r boblogaeth meddygon teulu ym mis Medi 2024 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 338. |

| Gwasanaethau Ambiwlans | |
|---|---|
| **111%** | Cynnydd i alwadau ambiwlans Categori A (coch) rhwng Medi 2019 a medi 2024 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 127%. |
| **49%** | Galwadau ambiwlans Categori A (coch) yr ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud ym mis Medi 2024, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 49% a tharged cenedlaethol o 65%. Mae hyn yn ostyngiad o 33% o fis Medi 2019. |
| **11%** | Cleifion a drosglwyddwyd o griwiau ambiwlans i'r adran achosion brys o fewn 15 munud o gyrraedd ym mis Medi 2024, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 18% a tharged cenedlaethol o 100%. Mae hyn yn ostyngiad o 23% o fis Medi 2019. |

[1] Diffinnir apwyntiadau brys ac acíwt fel apwyntiadau ar gyfer cyflyrau brys neu acíwt sydd wedi digwydd dros y byrdymor.

| Gwasanaethau Ambiwlans | |
| --- | --- |
| 12% | Gostyngiad i nifer y bobl a oedd yn bresennol yn Adrannau Achosion Brys y Bwrdd Iechyd rhwng Medi 2019 a Medi 2024, o'i gymharu â gostyngiad cyfartalog o 1% yng Nghymru gyfan. |
| 979 | Nifer y bobl a oedd yn aros mwy na 12 awr yn Adrannau Achosion Brys y Bwrdd Iechyd ym mis Medi 2024. Mae hyn yn gynnydd o 604% ers mis Medi 2019. |
| 04:47 | Amser cyfartalog a dreuliwyd yn Adrannau Achosion Brys y Bwrdd Iechyd ym mis Medi 2024, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 5 awr, 46 munud. Mae hyn yn gynnydd o un awr, 55 munud ers mis Medi 2019. |
| 315 | Nifer y bobl a oedd yn bresennol yn yr unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod fesul 100,000 o'r boblogaeth ym mis Gorffennaf 2024 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 233. |

| Cyllid | |
| --- | --- |
| £54.6m | Arian ychwanegol a ddyrannwyd i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y cyfnod 2022-25 i adfer gofal a gynlluniwyd a gofal brys a gofal mewn argyfwng y tu hwnt i gyllid craidd y Bwrdd Iechyd. |
| £5.9m | Arian ychwanegol yn ystod y flwyddyn a dderbyniwyd gan y Bwrdd Iechyd yn 2023-24, a 2024-25 i gynorthwyo cyflawniad uchelgeisiau'r Rhaglen Chwe Nod. |

# Negeseuon allweddol

## Casgliad cyffredinol

5 Ar y cyfan, canfuwyd gennym fod **newidiadau i wasanaethau yn cynorthwyo gwelliannau i reolaeth galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng, wedi'u seilio ar gynlluniau cadarn a throsolwg corfforaethol cryf. Fodd bynnag, mae gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn dal i fod o dan bwysau sylweddol ac mae angen gweithredu parhaus i sicrhau bod capasiti presennol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr effaith orau. Mae angen gweithredu pellach hefyd i sicrhau bod gan gleifion a staff well dealltwriaeth o'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael a sut i gael gafael arnynt. Byddai sicrhau gwelliannau pellach yn cael ei gynorthwyo gan gynnwys staff Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ym Mwrdd Cyflawni'r Chwe Nod a thrwy gasglu adborth staff a chleifion ar ba mor dda y mae gwasanaethau yn gweithio.**

## Canfyddiadau allweddol

### Trefniadau cynllunio

6 Canfuwyd gennym fod gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau cadarn a manwl ar waith i reoli'r galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, gan gynnwys datblygu modelau gwasanaeth newydd a llwybrau clinigol amgen.

7 Mae cynlluniau yn cael eu hysbysu gan ddata, yn adlewyrchu blaenoriaethau gweinidogol ac yn nodi'r lefel ofynnol o adnoddau sydd ei hangen i gyflawni uchelgeisiau, er bod y Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd yn mynd y tu hwnt i'w ddyraniad cyllid Chwe Nod ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, a'i bod yn aneglur sut y bydd modelau gwasanaeth yn cael eu hariannu yn y tymor canolig i'r tymor hwy.

8 Mae cynlluniau yn ceisio mynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â gofal brys a gofal mewn argyfwng ac yn cyd-fynd â'r Rhaglen Chwe Nod.

### Cael gafael ar wasanaethau

9 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu cyhoeddus wedi'i strwythuro'n dda, gan ddefnyddio amrywiaeth eang o ymgyrchoedd. Mae gwefannau yn addysgiadol ac yn cynnig cyfeiriadau eglur at wasanaethau amgen, er bod angen gwneud mwy o waith i wella'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar wefannau meddygfeydd teulu a phractisau deintyddol.

10 Fodd bynnag, mae adborth gan staff a Llais yn dynodi bod cyfleoedd pellach i gryfhau ymwybyddiaeth y cyhoedd a chyfeiriadau, gan gynnwys darparu gwybodaeth fwy eglur am ddiben gwahanol wasanaethau. Er bod camau cadarnhaol wedi cael eu cymryd i godi ymwybyddiaeth staff o gynlluniau a

newidiadau i wasanaethau, ceir dealltwriaeth amrywiol o hyd o ba wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng sydd ar gael. Mae rhai staff hefyd yn ddryslyd ynghylch y trefniadau atgyfeirio mewnol yn y system gofal brys a gofal mewn argyfwng sy'n arwain at arferion sy'n amrywio ac yn anghyson.

11 Er mai problemau deintyddol yw'r prif reswm am ffonio 111 ledled Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i gynnig darpariaeth ddeintyddol brys i fynd i'r afael â'r pwysau hyn. Mae capasiti fferylliaeth gymunedol wedi cael ei ehangu i ymdrin ag anhwylderau cyffredin, ond mae'r nifer sy'n manteisio ar ymgynghoriadau yn is na chyfartaledd Cymru gyfan ac nid oes unrhyw fferyllfeydd cymunedol yn cynnig oriau ychwanegol bellach.

12 Mae gan staff 111 ac ambiwlans ymwybyddiaeth a gwybodaeth dda o ran llwybrau atgyfeirio, ac mae gan y Bwrdd Iechyd gyfradd ryw fymryn yn uwch o gleifion yr ymdrinnir â nhw trwy 'ymgynghori a chloi', ac atgyfeiriadau i wasanaethau amgen o 111. Gall criwiau ambiwlans atgyfeirio cleifion i lwybrau amgen, ond mae'r cyfraddau atgyfeirio yn isel ac mae mynediad at systemau gwybodaeth yn atal penderfyniadau clinigol.

13 Mae unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod a Chanolfannau Gofal Sylfaenol Brys ar waith ac yn gweithio'n dda yn gyffredinol i helpu i reoli galw, â'r lefelau uchaf o weithgarwch yng Nghymru. Fodd bynnag, mae cyfran uwch o gleifion Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod sydd angen cael eu derbyn yn atal cleifion eraill rhag cael eu cyfeirio oddi wrth yr Adran Achosion Brys, ac mae cyfradd yr atgyfeiriadau i Ofal Argyfwng yr Un Diwrnod gan griwiau ambiwlans yn isel. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynyddu'r nifer sy'n bresennol mewn unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod ymhellach ac yn datblygu uned derbyniadau llawfeddygol acíwt i gynorthwyo cleifion sydd angen cael eu derbyn.

14 Er bod sawl mesur perfformiad ambiwlansys wedi gwella, mae angen gwaith pellach i leihau oriau a gollir oherwydd oedi cyn trosglwyddo, yn ogystal â sicrhau mwy o ddefnydd o gapasiti unedau mân anafiadau. Mae'r gyfradd sy'n bresennol mewn adrannau achosion brys ryw fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan ac ar ôl cyrraedd yr adran, canran y cleifion a dderbynnir yw'r isaf, sy'n awgrymu bod cyfran o gleifion a allai fod wedi cael eu trin yn rhywel arall o hyd.

## Trefniadau craffu a monitro

15 Ceir amrywiaeth dda o ddata i fonitro a chraffu ar sut mae modelau gwasanaeth newydd yn gweithio, a chasglwyd data defnyddiol o ran llwybrau clinigol amgen. Mae'r Bwrdd Iechyd yn casglu adborth cleifion, ond nid yw'n eglur pa un a yw arolygon yn asesu effeithiolrwydd llwybrau clinigol amgen, mae cyfraddau ymateb yn isel, ac nid yw'n ymddangos bod y canfyddiadau yn cael eu defnyddio i hysbysu a gwella cynlluniau.

16 Er bod mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â staff, ni ofynnwyd am adborth gan staff y Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar sut mae gwasanaethau yn gweithio.

17 Ceir trosolwg a chraffu effeithiol o ran cynlluniau a pherfformiad ar lefelau corfforaethol a gweithredu, ond ceir lle i werthuso prosiectau a buddsoddiad trwy ddefnyddio arian ychwanegol yn fwy cyson, ac i ddod ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i Fwrdd Cyflawni'r Chwe Nod i sicrhau bod cynlluniau yn effeithiol ar draws y system gofal brys a gofal mewn argyfwng gyfan.

# Argymhellion

18 Mae **Arddangosyn 1** yn rhoi manylion yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith. Mae ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion wedi'u crynhoi yn **Atodiad 3**.

**Arddangosyn 1: argymhellion**

| **Argymhellion** |
|---|
| **Cyllid y Rhaglen Chwe Nod**<br>A1 I gefnogi darpariaeth barhaus mentrau sy'n gysylltiedig â'r Chwe Nod, mae angen i'r Bwrdd Iechyd egluro a chadarnhau'r trefniadau ariannu ar gyfer cynlluniau y tu hwnt i fis Mawrth 2025. Dylai cynlluniau ar gyfer blynyddoedd y dyfodol hefyd nodi unrhyw anghenion cyllid y tu hwnt i'w dyraniad blynyddol presennol **(Arddangosyn 2).** |
| **Cyfeirio cleifion at y gwasanaethau cywir**<br>A2 I sicrhau bod cleifion yn derbyn y gofal brys a gofal mewn argyfwng sydd fwyaf priodol i'w hanghenion, dylai'r Bwrdd Iechyd gynnal trafodaethau â Llais a grwpiau cynrychioli cleifion eraill, fel sy'n briodol, i helpu i nodi lle mae angen cryfhau trefniadau gwybodaeth a chyfeirio cleifion presennol **(Paragraff 37)**. |
| **Llwybrau Atgyfeirio**<br>A3 I wella mynediad a defnydd o atgyfeiriadau i wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng amgen priodol, dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda staff allweddol, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, i ddatblygu mecanweithiau atgyfeirio sy'n eglur, wedi'u cyfathrebu'n dda ac sy'n gwbl hygyrch **(Paragraff 40)**. |

**Argymhellion**

**Cyfeiriadur gwasanaethau**

A4 I sicrhau bod staff iechyd a gofal yn gallu cyfeirio ac atgyfeirio pobl yn briodol i'r gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng cywir, dylai'r Bwrdd Iechyd:

4.1. sicrhau bod Cyfeiriadur Gwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cynnwys yr wybodaeth fwyaf cyfredol am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng;

4.2. sicrhau bod Cyfeiriadur Gwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau cymunedol a thrydydd sector perthnasol;

4.3. sefydlu mecanwaith i gadw Cyfeiriadur Gwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn gyfredol, sy'n cynnwys nodi swyddog â chyfrifoldeb arweiniol am y dasg hon **(Paragraff 41)**.

**Adborth cleifion**

A5 I sicrhau ei fod yn defnyddio adborth cleifion i ddeall a gwella mynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, dylai'r Bwrdd Iechyd:

5.1. sicrhau bod arolygon yn holi ymatebwyr am effeithiolrwydd llwybrau clinigol amgen;

5.2. gweithio i gynyddu cyfraddau ymateb; a

5.3. ymateb yn eglur i ganfyddiadau mewn cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng **(Arddangosyn 11)**.

**Trosolwg a Chraffu**

A6 I gryfhau ei allu i gydgysylltu cynlluniau strategol a newidiadau gwasanaeth ar gyfer ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel aelod o'i Fwrdd Cyflawni'r Chwe Nod **(Arddangosyn 12)**.

**Sicrhau cymaint o ddefnydd â phosibl o wasanaethau amgen**

A7 I ddeall pa mor dda y mae'n defnyddio Unedau Mân Anafiadau i nodi cyfleoedd pellach i sicrhau bod y gwasanaeth hwn yn cael ei ddefnyddio cymaint â phosibl, dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys metrigau ar gyfraddau presenoldeb a throsglwyddiad i'w uned mân anafiadau mewn adroddiadau i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad **(Arddangosyn 12)**.

**Argymhellion**

**Gwerthuso manteision prosiectau**

A8 I gryfhau ei waith adrodd ar y manteision a sicrhawyd o'i waith Rhaglen Chwe Nod a defnydd cysylltiedig o gyllid, dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a chyfathrebu canllawiau i staff ar sut i werthuso effeithiolrwydd prosiectau, mentrau a newidiadau gwasanaeth yn ymwneud â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng **(Arddangosyn 12)**.

# Adroddiad Manwl

## Trefniadau cynllunio

19 Mae'r adran hon yn ystyried pa un a oes gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau cadarn ar waith i reoli'r galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth bod cynlluniau:

- wedi'u hysbysu gan wybodaeth berthnasol a chyfredol;
- yn nodi ac yn ceisio mynd i'r afael â risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng;
- yn cyd-fynd â gofynion y Rhaglen Chwe Nod, ac yn nodi'n eglur sut y bydd llwybrau clinigol amgen yn gweithio; ac
- yn nodi'r lefelau presennol a gofynnol o adnoddau a staffio i gyflawni'r uchelgeisiau a fwriedir.

20 Fe wnaethom adolygu Cynllun Cyflawni Chwe Nod 2024-25 y Bwrdd Iechyd (y Cynllun Chwe Nod), ynghyd ag adrannau perthnasol o'i Gynllun Blynyddol 2024-25 a'i Gynllun Tymor Canolig Integredig 2024-27 sy'n canolbwyntio ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.

21 Canfuwyd gennym fod **cynlluniau cadarn i reoli galw, gan gynnwys cyflwyno modelau gwasanaeth newydd, ond mae'n aneglur sut y bydd modelau newydd yn cael eu hariannu yn y tymor canolig i'r tymor hwy.**

22 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'n casgliad wedi'u crynhoi yn **Arddangosyn 2**.

**Arddangosyn 2: dull o gynlluniau gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng**

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| Cynlluniau wedi'u hysbysu gan wybodaeth berthnasol a chyfredol? | **Ydynt** | Mae cynlluniau'r Bwrdd Iechyd wedi'u strwythuro'n dda ac yn gynhwysfawr â chysondeb eglur rhwng eu huchelgeisiau.<br>Maent wedi'u hysbysu gan wybodaeth berthnasol a chyfredol, yn cynnwys data ystyrlon ac yn adlewyrchu blaenoriaethau gweinidogol a lleol allweddol. Maent yn manteisio ar amrywiaeth o ddata, gan gynnwys atgyfeiriadau i Ganolfannau Gofal Sylfaenol Brys ac unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, data galw cohortau a dadansoddiad o iechyd y boblogaeth. |

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| Cynlluniau yn nodi ac yn ceisio mynd i'r afael â risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng? | **Ydynt** | Mae cynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn nodi risgiau allweddol a chamau lliniaru. Mae'r risgiau yn cynnwys cohort oedolion uchel eu risg y sefydliad, y nodir ei fod yn achosi heriau i lif y system gofal brys a gofal mewn argyfwng.<br>Sefydlwyd Cofnodion Risgiau a Phroblemau ar gyfer y mwyafrif o ffrydiau gwaith Rhaglen Chwe Nod y Bwrdd Iechyd[2]. Caiff risgiau eu sgorio yn ôl blaenoriaeth a neilltuir pobl i fod yn gyfrifol amdanynt.<br>Nodir gofal brys a gofal mewn argyfwng fel risg yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Iechyd hefyd oherwydd y pwysau parhaus ar draws y system. Roedd y sgôr risg cysylltiedig wedi gostwng ar adeg ein gwaith oherwydd gwelliannau i amseroedd trosglwyddo ambiwlansys ac amseroedd aros yn yr Adran Achosion Brys. |
| Cynlluniau yn cyd-fynd â gofynion y Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, ac yn nodi'n eglur sut y bydd llwybrau clinigol amgen yn gweithio? | **Ydynt** | Mae'r cynlluniau yn cyd-fynd â gofynion y Rhaglen Chwe Nod. Mae'r cynlluniau yn nodi manylion mentrau/modelau gwasanaeth presennol a newydd a llwybrau clinigol y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cynnig fel opsiynau yn hytrach na derbyniadau brys. Er enghraifft, mae'r cynllun yn rhoi manylion bwriad i symud a thrawsnewid Canolfan Gofal Sylfaenol Brys Canol y Fro i fod yn Ganolfan Triniaeth Frys.<br>Mae Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yn faes gwasanaeth craidd yn y cynllun hefyd, ag uchelgeisiau i ddatblygu unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod presennol (Meddygol a Llawfeddygol) a chyflwyno unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod newydd gan gynnwys o bosibl datblygu uned Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod Eiddilwch yn y dyfodol. |

[2] Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyfuno Rhaglen Chwe Nod Llywodraeth Cymru yn bedair ffrwd waith.

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| Cynlluniau yn nodi'r lefelau presennol a gofynnol o adnoddau a staffio i gyflawni'r uchelgeisiau a fwriedir? | **Yn rhannol** | Dyrannwyd £2.96 miliwn i'r Bwrdd Iechyd yn 2024-25 i gynorthwyo ei ddarpariaeth o'r Rhaglen Chwe Nod. Mae'r cynllun yn darparu costiadau yn gysylltiedig â sut y bydd yr arian hwn yn cael ei ddyrannu. Fodd bynnag, mae rhagolygon yn dynodi y bydd y Bwrdd Iechyd yn mynd y tu hwnt i'w ddyraniad cyllid Rhaglen Chwe Nod erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Hefyd, nid oedd y Cynllun Chwe Nod na'r dystiolaeth ychwanegol a ddarparwyd i ni yn nodi anghenion cyllid na staffio y tu hwnt i fis Mawrth 2025 ar gyfer y mentrau **(Argymhelliad 1).** |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

## Mynediad at wasanaethau

23 Mae'r adran hon yn ystyried pa un a oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn ar waith i annog a galluogi pobl i gael gafael ar y gofal cywir, yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, a pha un a yw'r rhain yn gweithio. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o:

- gyfeirio cleifion yn effeithiol at y gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng sy'n diwallu eu hanghenion orau;
- staff yn meddu ar wybodaeth dda am yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i gleifion ac yn gallu cyfeirio cleifion at wasanaethau amgen, pan fo'n briodol; a
- newidiadau i'r ddarpariaeth o wasanaethau yn arwain at welliannau i fynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.

*24* Canfuwyd gennym fod **newidiadau i'r ddarpariaeth o wasanaethau yn arwain at welliannau i reoli galw, yn enwedig o ran oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys. Ceir cyfleoedd o hyd i gryfhau negeseuon i'r cyhoedd ac i egluro llwybrau a gwybodaeth atgyfeirio staff.**

## Cyfeirio'r cyhoedd at wasanaethau

25 Canfuwyd gennym fod **gweithgarwch sylweddol i gyfeirio'r cyhoedd at wasanaethau gofal brys, ond mae adborth yn awgrymu bod cyfleoedd pellach i gryfhau ymwybyddiaeth y cyhoedd.**

### Cynlluniau cyfathrebu

26 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Cynllun Cyfathrebu Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng 2024 sydd â'r nod o addysgu a hysbysu cleifion, staff a rhanddeiliaid am y gofal a'r cymorth sydd ar gael o fewn y system, a sut i gael gafael arnynt. Mae'r Cynllun Cyfathrebu wedi'i strwythuro'n dda ac yn amlygu ymgyrchoedd cyfathrebu allweddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024.

27 Yn ogystal â'r Cynllun Cyfathrebu, mae'r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd am ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Er enghraifft, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno ymgyrchoedd cyfathrebu yn ymwneud â Chanolfannau Gofal Sylfaenol Brys, Dewis Sylfaenol[3], pwysau'r gaeaf, GIG 111 Cymru, 111 Pwyso 2[4] ac opsiynau eraill yn hytrach na'r Adran Achosion Brys. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn darparu gwybodaeth drwy ei wefan a'i dudalennau cyfryngau cymdeithasol, taflenni, a phosteri a thrwy sianelau rhanddeiliaid.

### Gwybodaeth i'r cyhoedd

28 Mae'n bosibl mai eu meddyg teulu fydd y pwynt cyswllt cyntaf i'r mwyafrif o gleifion ag angen brys, ac mae ein hadolygiad o'r data sydd ar gael yn awgrymu bod meddygfeydd teulu'r Bwrdd Iechyd wedi darparu lefel is o apwyntiadau brys ac acíwt ar gyfartaledd rhwng mis Hydref 2023 a mis Medi 2024 (789 o apwyntiadau y dydd) o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan (809 o apwyntiadau y dydd). Hefyd, mae'r apwyntiadau hyn ar gael yn ystod y dydd yn unig. Ar adegau o alw uchel a'r tu allan i'r oriau arferol, mae angen cyfeirio cleifion at wasanaethau amgen a all ddiwallu eu hanghenion gofal brys.

29 Canfu ein hadolygiad o wefan y Bwrdd Iechyd ei fod yn cynnig amrywiaeth o wybodaeth gynorthwyol i'r cyhoedd am fynediad at amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys sut i gofrestru a chael mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol, a swyddogaethau gwahanol weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae tudalennau gwe hefyd yn canolbwyntio ar fân afiechydon cyffredin, y gwasanaeth GIG 111, yn ogystal â'r ddarpariaeth y tu allan i oriau arferol. Mae gwefan y Bwrdd Iechyd yn cynghori cleifion mai eu tîm gofal sylfaenol yw eu man cyswllt cyntaf ar gyfer

[3] Ymgyrch a lansiwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw Dewis Sylfaenol i helpu'r cyhoedd ddewis y cyngor iechyd cywir yn eu cymuned leol, fel eu bod yn gweld y person iawn y tro cyntaf.

[4] Gwasanaeth brys yw 111 Pwyso 2 sy'n cynnig cyngor asesu a chyfeirio i unrhyw un sy'n dioddef argyfwng iechyd meddwl neu sydd angen cymorth i reoli ei symptomau.

anghenion gofal iechyd yn y gymuned. Mewn achosion lle na all claf aros i'w feddygfa deulu agor, ceir tudalen we gwasanaeth brys y tu allan i oriau arferol sy'n cyfeirio cleifion at wefan GIG 111 Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn darparu gwybodaeth yn ymwneud â'i wasanaethau fferylliaeth trwy ei dudalen we Dewis Sylfaenol, gan gynnwys fideo yn esbonio swyddogaeth fferyllydd cymunedol, yn ogystal â'r math o fân anhwylderau y gall eu trin.

30 Ystyriwyd gennym hefyd pa wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd trwy feddygfeydd teulu a phractisau deinyddol i asesu pa un a oes cyfeirio eglur i gleifion os oes ganddynt anghenion gofal brys neu ofal mewn argyfwng y tu allan i oriau arferol. Mae **Arddangosyn 3** yn cyflwyno canlyniadau'r gwaith hwn, a adolygodd wefannau a negeseuon peiriant ateb y tu allan i oriau arferol 22 o feddygfeydd teulu a 24 o bractisau deintyddol[5].

**Arddangosyn 3: canlyniadau'r adolygiad o wefannau a llinellau ffôn meddygfeydd teulu a phractisau deintyddol (Hydref 2024)**

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Sefyllfa Cymru gyfan |
|---|---|---|
| % y gwefannau meddygfeydd teulu â chyfeirio eglur | 57.1 | 56.8 |
| % y negeseuon peiriant ateb meddygfeydd teulu â chyfeirio eglur | 100.0 | 89.5 |
| % y gwefannau practisau deintyddol â chyfeirio eglur | 50.0 | 36.7 |
| % y negeseuon peiriant ateb practisau deintyddol â chyfeirio eglur | 100.0 | 86.7 |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

31 Roedd yr holl linellau ffôn meddygfeydd teulu a deintyddol a samplwyd yn y rhanbarth yn darparu cyfeirio eglur at wasanaethau gofal brys neu ofal mewn argyfwng y tu allan i oriau arferol. Mae hyn yn sylweddol well na'r sefyllfa Cymru gyfan ar gyfer y ddau wasanaeth. Roedd cyfeirio eglur o wefannau meddygfeydd teulu a phractisau deintyddol yn llai cyffredin, ond yn well na'r sefyllfa Cymru gyfan.

32 Ledled Cymru, mae rhwng 450,000 a 500,000 o bobl yn mynd i'r wefan 111 bob mis. Cyflwynir y pum prif reswm am alwadau 111 ar draws y Bwrdd Iechyd a Chymru, yn fwy cyffredinol, yn **Arddangosyn 4**.

[5] Roedd y sampl yn cynnwys cymysgedd o bractisau deintyddol GIG a phreifat.

**Arddangosyn 4: y pum prif reswm am ffonio 111 (Chwefror 2024)[6]**

| Y Bwrdd Iechyd hwn | % o'r holl alwadau | Sefyllfa Cymru gyfan | % o'r holl alwadau |
|---|---|---|---|
| Poen yn yr abdomen | 1.9 | Problemau deintyddol | 4.1 |
| Poen yn y frest | 1.7 | Poen yn yr abdomen | 2.4 |
| Peswch | 1.0 | Poen yn y frest | 1.6 |
| Brech | 0.8 | Peswch | 1.4 |
| Twymyn | 0.7 | Brech | 1.0 |

Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwlans

*33* Ledled Caerdydd a'r Fro, pen yn yr abdomen yw'r prif reswm am ffonio'r gwasanaeth 111, ac yna poen yn y frest. Er bod gan wefan y Bwrdd Iechyd wybodaeth am sut i gael mynediad at y gwasanaeth GIG 111 Cymru, yn ogystal â dolenni i wiriwr symptomau a theclyn brech croen, nid oes unrhyw wybodaeth eglur am y ddau symptom hyn.

34 Ledled Cymru, problemau deintyddol yw'r rheswm mwyaf cyffredin am ffonio'r gwasanaeth 111. Nid yw hwn yn ymddangos fel un o'r pum prif reswm am ffonio 111 yng Nghaerdydd a'r Fro, er bod gan y Bwrdd Iechyd nifer is o gontractau deintyddol y GIG[7] fesul 100,000 o'r boblogaeth o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan (14.2 ac 16.8 yn eu trefn). Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i liniaru anghenion deintyddol brys yn ei boblogaeth.

35 Yn ystod 2023-24, gwnaeth y Bwrdd Iechyd 300 o apwyntiadau deintyddol brys ar gael i gleifion yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener), a defnyddiwyd tua 65 i 70% o'r apwyntiadau hyn. Tîm gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd sy'n rhedeg yr apwyntiadau hyn, trwy gynllun Slot Cleifion Brys Newydd y Bwrdd Iechyd. Mae cleifion yn cael gafael ar apwyntiadau trwy ffonio Llinell Gymorth Ddeintyddol Caerdydd a'r Fro. Mae cleifion yn cael eu brysbennu gan staff deintyddol profiadol ac yna neilltuir apwyntiad sydd ar gael iddynt mewn practisau deintyddol sy'n cymryd rhan. Nod y Bwrdd Iechyd yw parhau â'r cynllun hwn i mewn i 2025-26 ac mae wedi llwyddo i gynyddu nifer y practisau deintyddol sy'n cymryd rhan yn y cynllun.

[6] Oherwydd problemau parhaus gyda'r system 111 newydd a roddwyd ar waith ym mis Ebrill 2024, ni adroddwyd unrhyw ddata ar y gwasanaeth 111 ers mis Chwefror 2024.

[7] StatsCymru, data ar gontractau a phractisau deintyddol, 2022-23

### Ymwybyddiaeth cleifion

36 Er gwaethaf Cynllun Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd a gwybodaeth trwy wefannau a chyfryngau cymdeithasol, nododd y staff i ni siarad â nhw bod angen gwneud mwy o waith i gryfhau negeseuon gofal brys a gofal mewn argyfwng i'r cyhoedd. Roedd hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth fwy eglur am ddiben gwahanol wasanaethau a sut y gallant lywio a chael mynediad at y gwasanaethau hyn yn ôl yr angen.

37 Cefnogir y safbwynt hwn hefyd gan Llais[8], y mae ei ymgysylltiad â'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi nodi bod cyfleoedd pellach i gryfhau dealltwriaeth y cyhoedd o'r system gofal brys a gofal mewn argyfwng, fel y gall y cyhoedd gael mynediad yn well at y ddarpariaeth fwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion. Mae adborth a gasglwyd gan Llais wedi codi angen penodol am well cyfathrebu â'r cyhoedd o ran gwasanaeth y tu allan i oriau arferol y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio'n briodol **(Argymhelliad 2)**.

## Ymwybyddiaeth staff a gallu i atgyfeirio

38 Canfuwyd gennym **er gwaethaf enghreifftiau da o ymgysylltiad â staff, bod dryswch yn parhau ynghylch y gwahanol wasanaethau gofal brys sydd ar gael a sut y gall staff gael mynediad atynt trwy brosesau atgyfeirio.**

### Hybu ymwybyddiaeth staff o wasanaethau

39 Mae gan y Bwrdd Iechyd fecanweithiau i godi ymwybyddiaeth staff o'i gynlluniau i reoli galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng. Er enghraifft, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd amrywiaeth o sioeau teithio yn 2023 ar gyfer staff a'i bartneriaid, ar-lein ac ar wahanol safleoedd ar draws y Bwrdd Iechyd, gyda'r nod o gyfathrebu ei uchelgeisiau ar gyfer y Rhaglen Chwe Nod.

40 Er gwaethaf y gweithgarwch hwn, canfuwyd gennym fod staff o'r farn bod y system gofal brys a gofal mewn argyfwng yn gymhleth ac yn ddryslyd, ag amrywiaeth sylweddol yn y ddealltwriaeth o ba wasanaethau sydd ar gael a diffyg gwybodaeth am newidiadau i wasanaethau. Mae gwahanol staff i ni siarad â nhw yn dweud bod system atgyfeirio fewnol y Bwrdd Iechyd yn ddryslyd. Mae hyn yn arwain at arbenigeddau yn pennu eu paramedrau eu hunain ar gyfer atgyfeiriadau, gan greu diffyg safoni ar draws gwasanaethau **(Argymhelliad 3)**.

41 Hefyd, dylai fod gan staff y Bwrdd Iechyd fynediad at gyfeiriadur o wasanaethau sydd ar gael yn y gymuned â gwybodaeth gynhwysfawr a chyfredol i gyfeirio cleifion i'r lle cywir ar gyfer eu hanghenion. Mae gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gyfeiriadur gwasanaethau ar gyfer ardal pob Bwrdd Iechyd hefyd, sy'n cynnwys manylion gwasanaethau a llwybrau atgyfeirio.

[8] Corff cenedlaethol annibynnol yw Llais a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gasglu ac adrodd safbwyntiau a phrofiadau'r cyhoedd i ddylanwadu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y GIG a'r sector gofal cymdeithasol.

Cyfrifoldeb y Bwrdd Iechyd yw sicrhau bod y cyfeiriadur hwn yn cael ei gadw'n gyfredol â gwybodaeth gywir. Fodd bynnag, nid yw gwybodaeth yn y cyfeiriadur hwn bob amser yn gyfredol, ac nid yw chwaith yn cynnwys rhai llwybrau a ddarperir gan wasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan staff yn y gymuned a'r trydydd sector (**Argymhelliad 4**).

## Atgyfeirio i wasanaethau

42 Er gwaethaf rhai problemau yn cynnal gwybodaeth ar y cyfeiriadur gwasanaethau, canfu ein hadolygiad bod gan staff 111 ac ambiwlansys ymwybyddiaeth a gwybodaeth dda o ran llwybrau atgyfeirio, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu amrywiaeth o lwybrau amgen, y gellir cael mynediad at lawer ohonynt drwy'r system Consultant Connect[9].

43 Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfradd ryw fymryn yn uwch o gleifion sy'n ffonio 999 yr ymdrinnir â nhw trwy 'clywed a thrin' na chyfartaledd Cymru gyfan (15% o'i gymharu â 14.2% ym mis Mawrth 2024). O'r galwadau hyn, cyfeirir cyfran sylweddol ac uwch at wasanaethau amgen o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan (77.3% o'i gymharu â 73.5%).

44 Mae'r gwasanaeth 111 hefyd yn cyfeirio cyfran uwch o gleifion at wasanaethau amgen. Mae **Arddangosyn 5** yn nodi i ba raddau y mae'r gwasanaeth 111 wedi gallu cyfeirio cleifion oddi wrth yr Adran Achosion Brys.

[9] Ap ffôn yw Consultant Connect, sy'n cysylltu clinigwyr y GIG, gan gynnwys meddygon teulu a pharafeddygon, ag amrywiaeth o feddygon ymgynghorol ysbyty ar gyfer cyngor a chyfarwyddyd.

**Arddangosyn 5: atgyfeiriadau i wasanaethau eraill o 111 (Chwefror 2024)**

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Sefyllfa Cymru gyfan |
|---|---|---|
| % y galwadau 111 a atgyfeiriwyd i feddyg teulu y tu allan i orau arferol | 50.2 | 41.0 |
| % y galwadau 111 a atgyfeiriwyd i broffesiwn iechyd arall | 1.9 | 2.4 |

Ffynhonnell: Dangosfwrdd Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwlans

45 Yn ystod 2023-24, cyfeiriodd staff 111 gyfran uwch o alwadau at feddygon teulu y tu allan i oriau arferol yn gyson yn ardal y Bwrdd Iechyd na'r sefyllfa Cymru gyfan, ond lefelau is i broffesiwn iechyd arall. Fodd bynnag, mae'n anodd gwybod pa un a wnaeth cleifion weithredu ar sail y cyngor hwnnw, neu a wnaeth y gwasanaethau hynny atgyfeirio cleifion ymlaen i'r Adran Achosion Brys yn y pen draw.

46 Mae i ba raddau y gall criwiau ambiwlans 'weld a thrin' cleifion yn y fan a'r lle rhyw fymryn yn is na chyfartaledd Cymru gyfan (10% o'i gymharu â 10.9% ym mis Mawrth 2024) er bod y gyfradd hon yn cynyddu. Mae canran y cleifion hyn sy'n cael eu hatgyfeirio i wasanaethau gofal amgen yn cyd-fynd â'r sefyllfa Cymru gyfan ond yn isel ar 7.2% (o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 7.7% ym mis Mawrth 2024).

47 Mae llwyddiannau o ran llwybrau atgyfeirio amgen gan gynnwys y cynllun Parafeddygon ar Feiciau, yr Uned Ymateb Meddygon[10] a Chanolfan Triniaeth Alcohol y Bwrdd Iechyd i gyd wedi cyfrannu at arallgyfeirio cleifion oddi wrth yr Adran Achosion Brys. Er gwaethaf y llwybrau sydd ar gael, fe wnaeth staff fynegi'r angen am lwybrau amgen pellach i gael eu datblygu i gynorthwyo cleifion, ac roedd syniadau a fynegwyd yn ystod cyfweliadau yn cynnwys llwybr beichiogrwydd cynnar, llwybr y Glust, y Trwyn a'r Gwddf, mwy o lwybrau cymunedau a llwybrau i gefnogi cyflyrau iechyd meddwl.

48 Mae'r diffyg systemau gwybodaeth a rennir yn rhwystr i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru allu cynyddu ei hatgyfeiriadau i wasanaethau amgen. Mae gan rai staff ambiwlans fynediad cyfyngedig at Borth Clinigol Cymru, yn dibynnu ar eu graddfa staff, sy'n golygu na all staff gael mynediad at hanes meddygol llawn y claf i ddeall cyflyrau meddygol eraill y gallai fod ganddynt neu unrhyw feddyginiaethau y maent yn eu cymryd. Mae hyn yn creu her gan ei fod yn atal staff rhag gwneud penderfyniadau cwbl gytbwys am y llwybr atgyfeirio priodol i

[10] Gwasanaeth dan arweiniad meddygon ymgynghorol ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yw'r Uned Ymateb Meddygon, lle gallai'r atebwr galwadau ddewis anfon rhywun o'r Uned i drin y claf yn y fan a'r lle, yn hytrach na mynd ag ef i'r ysbyty.

gleifion, gan arwain at ddibyniaeth ar atgyfeiriadau mwy traddodiadol fel cludo i'r ysbyty neu atgyfeiriad i feddyg teulu y tu allan i oriau arferol.

## Gwasanaethau i helpu i reoli galw

49 Canfuwyd gennym fod **y Bwrdd Iechyd wedi ehangu rhai gwasanaethau fferylliaeth cymunedol ac mae unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod a Chanolfannau Gofal Sylfaenol Brys yn gweithio'n dda yn gyffredinol i helpu i reoli'r galw am ofal brys. Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol o gapasiti Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cleifion y mae angen eu derbyn i'r ysbyty, sy'n atal cleifion eraill rhag cael eu cyfeirio at unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod ac oddi wrth yr Adran Achosion Brys.**

### Gwasanaethau fferylliaeth cymunedol

50 Cytunodd pob un o fferyllfeydd cymunedol y Bwrdd Iechyd ac eithrio un i ddarparu'r cynllun anhwylderau cyffredin yn 2023-24. Mae'r cynllun hwn yn caniatáu i fferyllwyr asesu a thrin rhestr gyffredin o fân anhwylderau[11]. Fodd bynnag, pe bai angen gwrthfiotigau, yna byddai dal i fod angen i gleifion gael eu hatgyfeirio i'w meddyg teulu. Roedd nifer yr ymgynghoriadau anhwylderau cyffredin fesul 100,000 o'r boblogaeth meddygon teulu ar gyfer 2023-24 yn is na chyfartaledd Cymru gyfan (10,290 o'i gymharu â 10,472). Llid yr amrannau, dermatitis, a chlefyd y gwair oedd yr anhwylderau mwyaf cyffredin a adroddwyd.

51 I ategu'r cynllun, mae rhai fferyllfeydd cymunedol ledled Cymru hefyd wedi cytuno i ddarparu gwasanaethau estynedig ychwanegol, sy'n cynyddu ymhellach gallu fferyllwyr cymunedol i ymateb i fân anhwylderau. Mae hyn yn cynnwys darparu'r gwasanaeth trin a phrofi llwnc tost, a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol. Mae'r ddau wasanaeth yn galluogi'r fferyllydd cymunedol i ragnodi gwrthfiotigau. Hefyd, gall fferyllwyr cymunedol ddarparu'r gwasanaeth oriau ychwanegol, sy'n caniatáu iddynt ymestyn eu horiau agor a darparu gwasanaeth wrth gefn ar wyliau banc.

52 Nodir y niferoedd sydd wedi manteisio ar y gwasanaethau estynedig ychwanegol hyn yn y Bwrdd Iechyd yn **Arddangosyn 6**.

[11] Y gwasanaeth anhwylderau cyffredin, 2021.

**Arddangosyn 6: niferoedd a fanteisiodd ar wasanaethau estynedig ychwanegol mewn fferyllfeydd cymunedol (2023-24)**

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Sefyllfa Cymru gyfan |
|---|---|---|
| % y fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu'r gwasanaeth trin a phrofi llwnc tost | 76 | 79 |
| % y fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol | 36 | 28 |
| % y fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu gwasanaethau oriau ychwanegol | 0 | 16 |

Ffynhonnell: StatsCymru

53 Mae gan y Bwrdd Iechyd ganran rhyw fymryn yn is o fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu'r gwasanaeth trin a phrofi llwnc tost o'i gymharu â'r sefyllfa ledled Cymru, ond mae ganddo'r nifer fwyaf sy'n manteisio ar y gwasanaeth rhagnodi annibynnol. Fodd bynnag, mae nifer y fferyllfeydd cymunedol sy'n cytuno i gynnig y gwasanaethau hyn wedi cynyddu o'r flwyddyn cynt. Mae nifer y fferyllfeydd cymunedol sy'n cynnig y gwasanaeth oriau ychwanegol wedi lleihau o 2022-23 a'r Bwrdd Iechyd yw'r unig un yng Nghymru heb unrhyw fferyllfeydd cymunedol yn darparu'r gwasanaethau oriau ychwanegol bellach. Hefyd, mae gan y Bwrdd Iechyd un o'r niferoedd isaf o fferyllfeydd fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru, sef 18.7 (o'i gymharu ag 20.9 ar lefel Cymru gyfan).

## Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod a Chanolfannau Gofal Sylfaenol Brys

54 Yn unol ag uchelgeisiau'r Rhaglen Chwe Nod, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu dwy uned Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod. Egwyddor Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yw darparu asesiadau a thriniaeth ar yr un diwrnod; heb fod angen derbyn y claf i'r ysbyty dros nos. Mae unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod Meddygol a Llawfeddygol y Bwrdd Iechyd yn gweithredu saith diwrnod yr wythnos ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi sefydlu dwy Ganolfan Gofal Sylfaenol Brys dan arweiniad clwstwr a dwy Ganolfan Gofal Sylfaen Brys CAF 24/7[12].

55 Mae **Arddangosyn 7** yn nodi i ba raddau y mae gwasanaethau'r model Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod a Chanolfannau Gofal Sylfaenol Brys yn cael ei ddefnyddio ar draws y Bwrdd Iechyd.

[12] System 'ffôn gyntaf' yw CAF 24/7, a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Iechyd yn 2021 fel ffordd o reoli galw am yr Adran Achosion Brys a lleihau arosiadau yn yr Adran Achosion Brys trwy gynnig slot amser i gleifion ddod i mewn. Mae'r model hefyd yn ymgorffori gofal brys bellach ac wedi'i gysylltu â'r gwasanaeth 111.

**Arddangosyn 7: cysylltiadau fesul 100,000 o'r boblogaeth meddygon teulu mewn Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys (Medi 2024) ac unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod (Gorffennaf 2024)**[13]

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Sefyllfa Cymru gyfan |
|---|---|---|
| Cyfanswm y cysylltiadau â Chanolfannau Gofal Sylfaenol Brys fesul 100,000 o'r boblogaeth meddygon teulu | 589.0 | 338.2 |
| Cyfanswm y presenoldebau mewn unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod fesul 100,000 o'r boblogaeth meddygon teulu | 314.6 | 233.3 |

Ffynhonnell: Dangosfwrdd Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru

56 Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfraddau uwch o gysylltiadau â Chanolfannau Gofal Sylfaenol Brys o'i chymharu â'r sefyllfa Cymru gyfan, yn ogystal â chyfraddau uwch o bresenoldebau mewn unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, sy'n awgrymu bod defnydd da yn cael ei wneud o'r gwasanaethau hyn. Ym mis Mawrth 2024, roedd gwasanaeth Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys y Bwrdd Iechyd yn cwmpasu 86% o ardal ddaearyddol y Bwrdd Iechyd, â defnydd o 90% o'r apwyntiadau sydd ar gael a gwaith ar y gweill i gynyddu ymhellach ailgyfeiriadau o'r Adran Achosion Brys. Gall y Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys dderbyn atgyfeiriadau o feddygfeydd teulu, y gwasanaeth y tu allan i oriau arferol (drwy'r model CAF 24/7) a'r Adran Achosion Brys. Mae cynlluniau ar gyfer datblygu model Gofal Cymunedol Ychwanegol y Bwrdd Iechyd[14] hefyd yn dynodi y bydd modd gwneud atgyfeiriadau rhwng y gwasanaeth y tu allan i oriau arferol, Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys, Diogel yn y Cartref[15] a CAF 24/7.

57 Er bod nifer y presenoldebau fesul 100,000 o'r boblogaeth meddygon teulu mewn unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod wedi codi a gostwng rhwng Hydref 2023 a Gorffennaf 2024, â nifer isaf o 300.7 ac uchaf o 343.1, mae wedi aros yn uwch na lefel Cymru gyfan yn gyson. Mae arferion da yn dynodi y dylai fod cyfraddau uchel o ryddhau o unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod i sicrhau eu bod yn cael eu

[13] Data ar gael ar gyfer unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yn unig tan fis Gorffennaf 2024.

[14] Mae'r model Gofal Cymunedol Ychwanegol yn rhan o ddull system gyfan y Bwrdd Iechyd i ddarparu'r gofal cywir yn y lle cywir, y tro cyntaf. Cymorth amlasiantaeth ac amlbroffesiwn cydgysylltiedig i rywun mewn argyfwng ac mewn perygl posibl o gael ei dderbyn i'r ysbyty yw hwn.

[15] Lansiwyd Diogel yn y Cartref ym mis Ionawr 2024 ac mae'n dîm amlddisgyblaeth sydd â'r nod o asesu, trin, a gofalu am gleifion yn ddiogel yn eu man preswylio, gan atal trosglwyddiadau gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a derbyniadau i'r ysbyty.

defnyddio yn effeithiol ac yn briodol. Yn y rhanbarth, mae canran y cleifion sy'n cael eu rhyddhau o unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod wedi aros yn gymharol sefydlog, â chyfradd gyfartalog o 77.4% rhwng Hydref 2023 a Gorffennaf 2024. Fodd bynnag, dyma'r gyfradd isaf yng Nghymru ag ychydig yn llai na chwarter y cleifion yn cael eu derbyn fel mater o drefn. Nid dyma yw bwriad Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod ac mae'n dynodi bod rhai cleifion yn cael eu hanfon drwy'r unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod tra'n aros i wely ysbyty ddod ar gael.

58 Mae meddygon teulu a staff o'r Adran Achosion Brys yn gallu atgyfeirio yn uniongyrchol i'r unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod. Mae adborth gan staff yn awgrymu bod y llwybrau atgyfeirio hyn yn gweithio'n effeithlon yn gyffredinol. Dywedodd staff Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod wrthym fod meddygon teulu ac adrannau achosion brys yn atgyfeirio'r briodol i Ofal Argyfwng yr Un Diwrnod yn y mwyafrif o achosion, â sgyrsiau clinigol cefnogol yn cael eu cynnal cyn i atgyfeiriad gael ei wneud. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym fod staff Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (111 a 999) yn gallu atgyfeirio cleifion yn uniongyrchol i'r unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, ond mae data yn dangos bod llai na 0.5% o alw Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cael ei atgyfeirio i Ofal Argyfwng yr Un Diwrnod bob mis. Nid yw'n eglur pam nad yw'r unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yn derbyn lefelau uwch o atgyfeiriadau gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Fodd bynnag, nododd adroddiad ar gynnydd ffrwd waith o fis Chwefror 2024 bod Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod Meddygol y Bwrdd Iechyd wedi cael ei effeithio gan weithlu meddygol a nyrsio anghyson, â staff asiantaeth locwm yn darparu gwasanaethau.

59 Yn ei Gynllun Blynyddol (2024-25), mae cynyddu presenoldebau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yn flaenoriaeth allweddol, â chynlluniau i gynyddu ei ddarpariaeth Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod trwy gyflwyno gwasanaethau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod ar gyfer Trawma a Gynaecoleg, ac Uned Triniaethau Anadlol Ddydd. Bydd oriau agor yr uned Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod Meddygol hefyd yn cael eu hymestyn i 10 pm ar benwythnosau, gan greu pedair ychwanegol o wasanaeth. I gleifion sydd angen cael eu derbyn i'r ysbyty ac felly nad ydynt yn briodol ar gyfer atgyfeiriad Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu datblygu uned derbyniadau llawfeddygol acíwt 25 gwely. Bydd yr uned ychwanegol hon yn cynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i reoli galw llawfeddygol brys ymhellach, gan leihau achosion o gleifion sydd angen cael eu derbyn yn cael eu hatgyfeirio yn amhriodol drwy'r uned Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod.

## Effaith newidiadau i wasanaethau ar berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng

60 Canfuwyd gennym **er bod sawl mesur perfformiad ambiwlansys wedi gwella a bod y Bwrdd Iechyd yn cymharu'n ffafriol ag eraill, bod angen gwaith pellach i leihau oriau a gollir oherwydd oedi cyn trosglwyddo, yn ogystal â sicrhau'r defnydd gorau posibl o gapasiti unedau mân anafiadau.**

61 Mae amseroedd ymateb ambiwlansys yn dal i fod yn heriol ac yn is na thargedau perfformiad, er y bu gwelliannau parhaus yn y Bwrdd Iechyd mewn rhai meysydd ac mae perfformiad yn well na sefyllfa Cymru gyfan yn gyffredinol (**Arddangosyn 8**). Ers y pandemig, mae galwadau 999 i'r gwasanaeth ambiwlans ar draws y Bwrdd Iechyd wedi parhau i gynyddu a bellach wedi mynd y tu hwnt i'r lefel a welwyd gan y gwasanaeth cyn y pandemig.


**Arddangosyn 8: amseroedd ymateb i alwadau coch ac oren (Hydref 2023 – Medi 2024)**

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Tuedd | Sefyllfa Cymru gyfan |
|---|---|---|---|
| % y galwadau coch yr ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud | 52.2 |  | 48.5 |
| Ymateb canolrifol i alwadau oren (munudau) | 79 |  | 90 |

Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwlans

62 Lleihau arosiadau cyn trosglwyddo o ambiwlansys a lleihau achosion o gludo i'r Adran Achosion Brys mewn ambiwlansys yn ddiogel yw'r drydedd flaenoriaeth allweddol yng Nghynllun Chwe Nod y Bwrdd Iechyd. Dros gyfnod o 18 mis, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni gwelliannau sylweddol i'w berfformiad trosglwyddo o ambiwlansys a dyma'r bwrdd iechyd sy'n perfformio orau yng Nghymru o ran oedi cyn trosglwyddo cleifion o ambiwlansys dros un awr (**Arddangosyn 9**). Mae'r gwelliannau hyn yn cynorthwyo gallu Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i ymateb i gleifion eraill yn y gymuned yn brydlon.

**Arddangosyn 9: % y trosglwyddiadau sy'n cymryd dros un awr i'w cwblhau (Ebrill 2022 – Medi 2024)**




Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwlans

63 Sicrhawyd y gwelliannau i berfformiad trosglwyddo yn rhannol oherwydd i'r Bwrdd Iechyd wneud penderfyniad gweithredol i reoli'r risg glinigol sy'n gysylltiedig â chleifion yn aros yn yr Adran Achosion Brys yn hytrach na chadw cleifion mewn ambiwlansys. Fodd bynnag, tra bod oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys yn y Bwrdd Iechyd wedi bod yn sylweddol well na gweddill Cymru, mae perfformiad wedi bod yn gwaethygu ers mis Rhagfyr 2023. Roedd cyfartaledd o 794 o oriau a gollwyd rhwng Hydref 2023 a Medi 2024. Mae hyn yn cyfateb i 66 o shifftiau 12 awr lle'r oedd cleifion yn aros mewn ambiwlans y tu allan i ysbyty am driniaeth ac nad oedd parafeddygon yn gallu ymateb i alwadau eraill.

64 Clywsom yn ystod ein hadolygiad hefyd am gyfleoedd pellach i gynyddu effeithlonrwydd yn y broses drosglwyddo. Er bod y broses trosglwyddo o ambiwlansys yn effeithlon ac yn gydgysylltiedig yn gyffredinol, clywsom am adegau pan fo staff yn cael eu hamharu gan broblemau technegol. Roedd enghreifftiau a rannwyd gyda ni yn cynnwys y System Ambiwlansys yn Cyrraedd (sy'n rhoi gwybodaeth i staff yr Adran Achosion Brys am y cleifion y disgwylir iddynt gyrraedd mewn ambiwlans) ddim yn gweithio'n effeithiol, yn ogystal â'r ffaith fod y dull ar gyfer cofnodi dechrau'r cyfnod trosglwyddo o'r ambiwlans wedi cael ei effeithio gan broblemau TG a logisteg. Er ei fod y tu hwnt i gwmpas ein hadolygiad i archwilio'r problemau technegol hyn, gallai'r Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru elwa o archwilio'r materion hyn ymhellach.

65 Ar ôl ei hasesu, mae'r gyfradd y mae criwiau ambiwlans yn cludo cleifion yn y Bwrdd Iechyd i'r ysbyty yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru gyfan. Rhwng Hydref 2023 a Medi 2024, aethpwyd â 64.7% o gleifion i'r ysbyty, a 65.0% oedd cyfartaledd Cymru gyfan. Mae **Arddangosyn 10** yn cyflwyno'r gyrchfan ar gyfer pob cludiant.

**Arddangosyn 10: cyrchfan gludo fel cyfran o gyfanswm y cludiant (Hydref 2023 – Medi 2024)**

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Tuedd | Sefyllfa Cymru gyfan |
|---|---|---|---|
| % y cleifion a gludwyd i adrannau achosion brys mawr | 87.3 |  | 88.4 |
| % y cleifion a gludwyd i unedau mân anafiadau | 0.1 |  | 6.6 |
| % y cleifion a gludwyd i unedau derbyniadau meddygol acíwt mawr | 11.3 |  | 3.2 |
| % y cleifion a gludwyd i uned arall ee uned iechyd meddwl neu famolaeth | 1.4 |  | 1.7 |
| % y cleifion a gludwyd i'r ysbyty yn dilyn galwad 999 o gartref gofal | 61.3 |  | 61.2 |

Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwlans, Dangosfwrdd Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru

66 Mae criwiau ambiwlans yn cludo cyfran ryw fymryn yn is o gleifion i Adran Achosion Brys y Bwrdd Iechyd na chyfartaledd Cymru gyfan, ond mae'r cyfraddau yn dal i fod yn uchel. Mae'r gyfradd cludo i unedau derbyniadau meddygol acíwt mawr, gan gynnwys unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yn un o'r uchaf yng Nghymru. Mae staff ambiwlans yn cadarnhau bod y meini prawf atgyfeirio ar gyfer yr uned feddygol acíwt yn eglur ac yn hygyrch. Fodd bynnag, er bod parafeddygon yn gallu cludo cleifion i'r uned mân anafiadau, prin iawn y mae hynny'n digwydd yn ymarferol. Mae uned mân anafiadau'r Bwrdd Iechyd wedi'i lleoli yn Ysbyty'r Barri ar hyn o bryd ac mae cynlluniau yn dynodi y bydd y gwasanaeth hwn yn troi'n Ganolfan Triniaeth Frys yn y dyfodol. Un o nodau allweddol y newid hwn yw caniatáu i nifer fwy o gleifion gael eu cyfeirio o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

67 Fe wnaeth achosion o gludo i'r ysbyty yn dilyn galwad 999 gan gartref gofal godi a gostwng yn sylweddol rhwng Hydref 2023 a Medi 2024 fel y dangosir yn **Arddangosyn 10**. Mae Cynllun Chwe Nod y Bwrdd Iechyd yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn cynorthwyo cartrefi gofal trwy ei fodelau Diogel yn y Cartref a Gofal Cymunedol Ychwanegol, â data o'r cynllun yn awgrymu bod 208 o achosion o gludo o'r cohort cartrefi gofal i'r Adran Achosion Brys yn cael eu hosgoi'n flynyddol.

Dywedodd parafeddygon a gyfwelwyd yn ystod yr adolygiad hwn y bydd angen i'r gwaith hwn barhau i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r system gofal brys a gofal mewn argyfwng ymhellach i leihau galwadau 999 diangen.

68 Rhwng Hydref 2023 a Medi 2024, roedd cyfradd y presenoldebau mewn Adrannau Achosion Brys mawr fesul 100,000 o'r boblogaeth meddygon teulu yn y rhanbarth ryw fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan (2,019 o'i gymharu â 1,980). Fodd bynnag, bu cynnydd o 12% yn y Bwrdd Iechyd i nifer y presenoldebau rhwng Medi 2019 a Medi 2024. Roedd hwn yn ostyngiad mwy na'r gostyngiad i gyfartaledd Cymru gyfan o 1% ac mae'n awgrymu bod y Bwrdd Iechyd yn arallgyfeirio cleifion i wasanaethau amgen. Fodd bynnag, bu gan y Bwrdd Iechyd y ganran isaf o gleifion a dderbynnir o'r Adran Achosion Brys yng Nghymru yn gyson (16.2% ar gyfer y rhanbarth o'i gymharu â 22.5% ledled Cymru ym mis Tachwedd 2024) a allai ddynodi bod cyfran o gleifion yn mynd i'r Adran Achosion Brys y gellid eu trin yn rhywle arall o hyd.

69 Er gwaethaf y gostyngiad i bresenoldebau, mae cleifion yn aros am gyfnodau hir o amser yn yr Adran Achosion Brys. 4 awr, 47 munud oedd yr amser cyfartalog a dreuliwyd yn Adran Achosion Brys y Bwrdd Iechyd ym mis Medi 2024, er bod hyn yn cymharu'n gadarnhaol â chyfartaledd Cymru gyfan o 5 awr, 18 munud. Fodd bynnag, mae nifer y cleifion sy'n aros dros 12 awr yn Adrannau Achosion Brys y rhanbarth wedi cynyddu o ganran syfrdanol o 604% o'i gymharu â Medi 2019, â 979 o gleifion yn aros mwy na 12 awr ym mis Medi 2024.

# Trefniadau craffu a monitro

70 Mae'r adran hon yn ystyried pa un a yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud digon i fonitro perfformiad ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, ac yn rhoi gwersi a ddysgwyd ar waith i wella gwasanaethau ymhellach. Roedd yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o:

- drefniadau ar gyfer monitro effaith llwybrau clinigol amgen; a
- throsolwg a chraffu effeithiol o ran cyflawni cynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng.

71 Canfuwyd gennym fod **trefniadau cryf i fonitro a chraffu ar berfformiad a chyflawniad cynlluniau gofal brys a gofal mewn argyfwng, ond mae trefniadau i werthuso prosiectau yn anghyson ac mae angen cryfhau'r defnydd o adborth staff a chleifion i hysbysu gwaith cynllunio.**

## Monitro effaith

72 Canfuwyd gennym **er bod monitro data ar y defnydd o lwybrau clinigol amgen yn gryf, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn casglu adborth staff, ac mae adborth cleifion yn gyfyngedig.**

73 Cyflwynir y canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn **Arddangosyn 11**.

**Arddangosyn 11: dull o fonitro effaith llwybrau amgen ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng**

| Cwestiwn archwilio | Ydy/ Nac ydy/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| A yw'r Bwrdd Iechyd yn olrhain ac yn adrodd data i ddangos a yw cleifion yn manteisio ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn briodol? | **Yn rhannol** | Mae gan y Bwrdd Iechyd amrywiaeth dda o ddata sy'n rhoi gwybodaeth iddo am sut mae'r modelau gwasanaeth newydd yn gweithio. Mae hyn yn cynnwys defnyddio Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys, presenoldebau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod ac ailgyfeiriadau o'r Adran Achosion Brys, a adroddir i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad.<br>Fodd bynnag, mae data yn ymwneud â llwybrau clinigol amgen eraill yn llai cyffredin mewn adroddiadau. Er enghraifft, Gwasanaeth Asesu Gofal Henoed y Bwrdd Iechyd[16] ac effaith yr Uned Ymateb Meddygon. |
| A ofynnir am adborth rheolaidd gan gleifion ac a yw'n cael ei ddefnyddio i hysbysu a gwella cynlluniau? | **Yn rhannol** | Un o'r dulliau allweddol y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei ddefnyddio i gasglu adborth cleifion yw drwy'r system CIVICA[17], a gyflwynwyd ganddo ym mis Hydref 2022. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn arolygu hyd at 1,000 o gleifion y dydd trwy negeseuon testun, ac arolygir 200 o gleifion o'r Adran Achosion Brys, 200 o weithgarwch Iechyd Meddwl, a dewisir 600 arall ar hap. Fodd bynnag, mae'r gyfradd ymateb yn isel, ac adroddwyd 14% ym mis Rhagfyr 2024.<br>Mae CIVICA yn cynnig dull defnyddio o gasglu gwybodaeth am daith claf a'i brofiad. Fodd bynnag, nid yw'n eglur i ba raddau mae'r arolwg yn mesur effeithiolrwydd llwybrau clinigol amgen. |

[16] Nod y Gwasanaeth Asesu Gofal Henoed yw darparu mynediad cyflym at asesiad i bobl sydd mewn perygl o waethygu, y mae mewnbwn amlddisgyblaeth yn debygol o olygu y gallant osgoi cael eu derbyn i'r ysbyty. Mae cleifion yn cael eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth hwn gan eu meddyg teulu neu drwy Uned Asesu Argyfyngau Meddygol y Bwrdd Iechyd.

[17] Platfform meddalwedd yw CIVICA, y bwriedir iddo fesur adborth cleifion mewn sefydliadau gofal iechyd.

| Cwestiwn archwilio | Ydy/ Nac ydy/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| | | Mae Llais hefyd yn casglu adborth cleifion, ac roedd adroddiad diweddar yn canolbwyntio ar wasanaethau y tu allan i oriau arferol y Bwrdd Iechyd yn Ysbyty'r Barri ac Ysbyty Brenhinol Caerdydd.<br>Ni allem ddod o hyd i dystiolaeth i ddangos sut y defnyddir adborth cleifion i hysbysu a gwella cynlluniau **(Argymhelliad 5)**. |
| A oes adborth staff rheolaidd ar effaith newidiadau i wasanaethau a chynlluniau peilot i nodi gwersi a'u rhoi ar waith? | **Nac oes** | Canfuwyd gennym fod cyfleoedd i ymgysylltu mwy â staff, gan gynnwys ceisio adborth ar effaith newidiadau ar y system gofal brys a gofal mewn argyfwng a pha mor dda mae modelau gwasanaeth unigol yn gweithio. Yn ogystal â staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau, mae'n arbennig o bwysig i'r Bwrdd Iechyd geisio adborth gan staff gofal sylfaenol ac ambiwlans. |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

## Trosolwg a chraffu

74 Canfuwyd gennym fod **trosolwg a chraffu effeithiol ar gynlluniau a pherfformiad, ond ceir lle i werthuso prosiectau yn fwy cyson.**

75 Cyflwynir y canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn **Arddangosyn 12**.

**Arddangosyn 12: dull o sicrhau trosolwg a chraffu ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng**

| Cwestiwn archwilio | Oes/ Nac oes/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| A oes trosolwg effeithiol ar | **Oes** | Ceir trosolwg rheolaidd ar berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae gan |

| Cwestiwn archwilio | Oes/ Nac oes/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng yn weithredol, gan gynnwys craffu a sicrwydd ar effeithiolrwydd cynlluniau a chamau sy'n cael eu cymryd i fodloni galw yn well? | | Fwrdd Cyflawni'r Chwe Nod, a gadeirir gan y Prif Swyddog Gweithredu, gynrychiolaeth eglur o'r arweinyddiaeth weithredol, weithredu a chlinigol ac mae'n derbyn adroddiadau misol ac yn darparu craffu a sicrwydd ar ffrydiau gwaith gofal brys a gofal mewn argyfwng allweddol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gynrychiolaeth o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn y cyfarfodydd hyn, sy'n cyfyngu gallu'r Bwrdd Iechyd i gydgysylltu cynlluniau strategol yn ymwneud â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng **(Argymhelliad 6)**.<br>Hefyd, mae'r Grŵp Cyflawni Gweithredol a arweinir gan y Prif Swyddog Gweithredu yn adolygu data'r Adran Achosion Brys a chleifion mewnol ac yn cynnal ymchwiliadau trwyadl yn dilyn cyfnodau o bwysau eithriadol ar y system.<br>O ran prosiectau penodol yn y ffrydiau gwaith Chwe Nod, cyflwynir diweddariadau/adroddiadau 'Fflach' misol i Fwrdd Cyflawni'r Chwe Nod graffu arnynt, sy'n cynnig gwybodaeth am gynnydd prosiectau, targedau a risgiau a mesurau lliniaru rhaglenni. |
| A oes trosolwg effeithiol ar berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng ar lefel pwyllgorau a'r bwrdd, gan gynnwys craffu a sicrwydd ar effeithiolrwydd cynlluniau a chamau sy'n cael eu cymryd i fodloni galw yn well? | **Yn rhannol** | Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn cael eu hysbysu'n dda am berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng a chamau sy'n cael eu cymryd i reoli galw yn well.<br>Mae gwaith adrodd ar gerrig milltir gofal brys a gofal mewn argyfwng a thargedau gweinidogol yn digwydd drwy Adroddiad Perfformiad Integredig y Bwrdd Iechyd, y mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn ei dderbyn ym mhob cyfarfod.<br>Fodd bynnag, mae ein hadolygiad o ddata yn dynodi bod cyfleoedd i gynyddu cludiant i'w uned mân anafiadau **(Paragraff 66).** Nid |

| Cwestiwn archwilio | Oes/ Nac oes/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| | | yw gweithgarwch o ran defnyddio'r uned mân anafiadau yn cael ei adrodd i bwyllgor na'r Bwrdd ar hyn o bryd **(Argymhelliad 7)**. |
| A oes trefniadau ar waith ar gyfer monitro a throsolwg ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd buddsoddiad mewn prosiectau gan Lywodraeth Cymru? | **Yn rhannol** | Mae Rhaglen Chwe Nod y Bwrdd Iechyd yn monitro'n weithredol y defnydd o ddyraniadau cyllid chwe nod Llywodraeth Cymru, er nad yw'n eglur sut mae arian arall a ddyrennir i adfer gofal brys a gofal mewn argyfwng yn cael ei fonitro.<br>Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau mewnol ar waith i werthuso prosiectau a mentrau ar gyfer gwerth am arian, ond canfuwyd gweithrediad anghyson gennym ar draws y sefydliad. Awgrymodd rhai o'r bobl a gyfwelwyd angen am fwy o gyfarwyddyd i gynorthwyo staff i ddatblygu'r sgiliau i werthuso prosiectau yn effeithiol ac yn gyson **(Argymhelliad 8)**. |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 13** yn nodi'r dulliau archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth wedi'i gyfyngu i'r wybodaeth a gaffaelwyd o'r dulliau isod.

**Arddangosyn 13: dulliau archwilio**

| Elfen o'r dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dogfennau | Adolygwyd amrywiaeth o ddogfennau gennym, gan gynnwys:<br>• Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, 2024-25<br>• Cynllun Blynyddol, 2024-25<br>• Cynllun Tymor Canolig Integredig ac adroddiadau diweddaru tri misol<br>• Cynllun Cyfathrebu Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, 2024-25<br>• Adroddiad Arolygu AGIC o'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol Cymru, 06/06/24<br>• Cynllun Comisiynu Integredig 2024-25<br>• Papur Cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad<br>• Papurau Cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd<br>• Diweddariad Bwrdd Clinigol y Chwe Nod<br>• Diweddariad Cryno Gweithredol y Chwe Nod<br>• Adroddiadau perfformiad y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng<br>• Cylch Gorchwyl Bwrdd cyflawni'r Chwe Nod<br>• Cofnodion Risg<br>• Adroddiad Ymgysylltu Rhanbarth Caerdydd a'r Fro Llais |
| Cyfweliadau | Cyfwelwyd y canlynol gennym:<br>• Y Prif Swyddog Gweithredu<br>• Cyfarwyddwr Gweithrediadau, y Bwrdd Clinigol Meddygaeth<br>• Uwch Reolwr Rhaglen, Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng<br>• Cyfarwyddwr Clinigol Meddygaeth Argyfwng<br>• Cyfarwyddwr Clinigol Gwasanaeth Gofal Sylfaenol Brys y Tu Allan i Oriau Arferol Caerdydd a'r Fro<br>• Arweinydd Trawsnewid, Meddygaeth Argyfwng ac Acíwt<br>• Pennaeth Gweithrediadau Gwasanaethau Meddygaeth Argyfwng, y De-ddwyrain |

| Elfen o’r dull archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| | • Cyfarwyddwr Rhanbarthol Interim Llais |
| Trafodaethau grŵp | Cynhaliwyd trafodaethau grŵp gennym gyda’r canlynol:<br>• Aelodau o’r Bwrdd Clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol, a Chanolradd<br>– Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gofal Sylfaenol (Interim)<br>– Cyfarwyddwr Nyrsio<br>– Cyfarwyddwr Bwrdd Clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolradd<br>– Pennaeth Cynllunio – Bwrdd Clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolradd<br>• Penaethiaid yr Adran Achosion Brys, Unedau Mân Anafiadau, Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod a Chanolfannau Gofal Sylfaenol Brys<br>• Arweinwyr Clwstwr Meddygon Teulu ac Arweinwyr y Tu Allan i Oriau Arferol |
| Arsylwadau | Ymwelwyd â Gorsaf y Gwasanaeth Ambiwlans ym Mhentwyn, Caerdydd ac arsylwyd y broses trosglwyddo o ambiwlansys yn yr Uned Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Cawsom sgyrsiau gyda’r staff canlynol:<br>• Rheolwr Ardal<br>• Rheolwyr Dyletswydd<br>• Uwch Ymarferwyr Parafeddygol<br>• Cynorthwywyr Gofal Ambiwlans<br>• Nyrs Staff Uwch |
| Dadansoddi data | Dadansoddwyd data gennym yn ymwneud â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, gan ddefnyddio’r ffynonellau canlynol:<br>• Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwlans;<br>• Dangosfwrdd Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru;<br>• StatsCymru;<br>• Data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â gwasanaethau y tu allan i oriau arferol meddygon teulu; a<br>• Datganiadau Monitro Misol. |

| Elfen o’r dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Adolygiadau gwefan a phractisau | Adolygwyd gwefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd gennym, yn ymwneud â’r ddarpariaeth o wybodaeth i’r cyhoedd am gael mynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.<br>Adolygwyd gwefannau a llinellau ffôn gennym hefyd ar gyfer:<br>• sampl o 22 o feddygfeydd teulu; a<br>• sampl o 24 o bractisau deintyddol. |

Cyflawnwyd yr holl waith archwilio yn unol â safonau archwilio’r Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Atodiad 2

## Meini prawf archwilio

Mae **Arddangosyn 14** yn nodi'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn.

**Arddangosyn 14: meini prawf archwilio**

| Cwestiynau archwilio | Meini prawf archwilio |
|---|---|
| **A oes gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau cadarn ar waith i reoli'r galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng?** | |
| A yw cynlluniau yn ceisio gwella'r rheolaeth o alw drwy newidiadau i'r ddarpariaeth o wasanaethau yn unol â'r chwe nod ar gyfer gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng? | • Mae strategaethau a/neu gynlluniau yn ymwneud â gofal brys a gofal mewn argyfwng:<br>– wedi'u seilio a'u gwreiddio mewn gwybodaeth gyfoethog a chyfredol, wedi'i hysbysu gan ddata galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng (y gorffennol a'r dyfodol), gan gynnwys adegau brig o ran gweithgarwch ar amseroedd/diwrnodau a misoedd penodol, demograffeg, a chyflyrau cleifion;<br>– yn nodi ac yn ceisio mynd i'r afael â risgiau allweddol yn gysylltiedig â galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng;<br>– yn cyd-fynd â gofynion Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli galw yn well;<br>– yn cynnwys gwybodaeth wedi'i chofnodi am lwybrau clinigol amgen, gan gynnwys sut a phryd y dylid eu dilyn. |
| A yw cynlluniau yn nodi'r lefelau cyfredol a | • Mae strategaethau a/neu gynlluniau yn nodi manylion: |

| Cwestiynau archwilio | Meini prawf archwilio |
| --- | --- |
| gofynnol o adnoddau a staffio i gyflawni'r uchelgeisiau? | – y gofynion adnoddau a chyllid a nodwyd i gefnogi unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth o wasanaethau sydd wedi eu cynnwys yn y strategaeth/cynllun.<br>– y gweithlu a'r sgiliau sydd eu hangen i fodloni'r galw, gan gynnwys ar gyfer newidiadau i fodelau darparu fel adegau brig y gaeaf. Mae'r cynllun yn eglur am adnoddau gofynnol sgiliau/staff clinigol ac anghlinigol. |
| **A oes trefniadau ar waith i annog a galluogi pobl i gael mynediad at y gofal cywir, yn y lle cywir, y tro cyntaf, ac a yw'r rhain yn gweithio?** | |
| A yw'r Bwrdd Iechyd yn cyfeirio'r cyhoedd yn effeithiol at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, fel eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau yn briodol? | • Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwybodaeth eglur am wasanaethau sydd ar gael ac opsiynau yn hytrach nag adrannau achosion brys i'r cyhoedd drwy lwybrau amrywiol – gwefannau, atebwyr galwadau, posteri/taflenni, hysbysebion, gwefannau a llinellau ffôn meddygon teulu/deintyddion, cyfryngau cymdeithasol, fideos ac ati.<br>• Mae strategaethau a/neu gynlluniau ar gyfathrebu cyhoeddus yn cyd-fynd â gofynion nodau 2 a 3 Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng Llywodraeth Cymru (y gofal cywir, y lle cywir, y tro cyntaf).<br>• Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod gan gleifion ddealltwriaeth dda o sut i gael mynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng sy'n briodol i'w hanghenion. |
| A oes gan staff ymwybyddiaeth dda o wybodaeth am yr amrywiaeth o wasanaethau eraill sydd ar gael i'w cleifion a pha amseroedd y maent ar gael, a mynediad at yr wybodaeth hon? | • Ceir ymgysylltiad rhwng y Byrddau Iechyd a'r clystyrau meddygon teulu / deintyddion / parafeddygon am lwybrau amgen sydd ar waith a dyfodol gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae gwybodaeth am y llwybrau a'r gwasanaethau hyn ar gael i staff.<br>• Gall staff atgyfeirio yn uniongyrchol / arallgyfeirio cleifion i leoliadau mwy priodol ar gyfer eu hanghenion, gan gynnwys Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys a Chanolfannau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod. |

| Cwestiynau archwilio | Meini prawf archwilio |
| --- | --- |
| A oes tystiolaeth bod newidiadau i'r ddarpariaeth o wasanaethau yn arwain at reoli galw yn well? | • Mae atgyfeiriadau i fodelau gwasanaeth newydd yn cyd-fynd ag uchelgeisiau llawlyfr polisi'r chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng.<br>• Gall Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru atgyfeirio o leiaf 4% o achosion o Ofal Argyfwng yr Un Diwrnod.<br>• Mae galwadau i 111 yn cael eu hateb yn gyflym ac mae cyfraddau rhoi'r ffôn i lawr yn isel.<br>• Mae amseroedd ymateb ambiwlansys brys, oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys ac arosiadau mewn Adrannau Achosion Brys ac Unedau Mân Anafiadau yn gwella.<br>• Mae data yn dangos niferoedd sy'n gostwng o gleifion ag aciwtedd isel / mân anhwylderau yn ymddangos mewn Adrannau Achosion Brys.<br>• Mae data yn dynodi amrywiaeth dda o apwyntiadau meddygon teulu ar gael.<br>• Mae data yn dynodi bod galwadau sy'n cael eu harallgyfeirio rhwng 999 ac 111/Galw Iechyd Cymru yn briodol, â lefelau isel o alwadau yn cael eu harallgyfeirio yn ôl a niferoedd isel o gyfraddau ail-gysylltu. |
| **A yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud digon i fonitro perfformiad ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng a rhoi gwersi a ddysgwyd ar waith i wella'r gwasanaethau ymhellach?** | |
| A yw'r Bwrdd Iechyd yn monitro effeithiolrwydd llwybrau clinigol amgen, gan gynnwys ceisio adborth gan staff a defnyddwyr gwasanaeth? | • Mae'r Bwrdd Iechyd yn olrhain ac yn adrodd data i ddangos pa un a yw cleifion yn cael mynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn briodol.<br>• Gall y Bwrdd Iechyd gynnig tystiolaeth ei fod yn gofyn am adborth cleifion yn rheolaidd ac yn ei ddefnyddio i hysbysu a gwella cynlluniau.<br>• Gofynnir am adborth rheolaidd gan staff amrywiol ar effaith newidiadau i wasanaethau a chynlluniau peilot i nodi gwersi a'u rhoi ar waith. |
| A oes craffu a sicrwydd effeithiol o ran darparu cynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn | • Ceir trosolwg effeithiol o berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng yn weithredol ac ar lefel pwyllgorau a'r bwrdd. Mae hyn yn cynnwys craffu a sicrwydd ar effeithiolrwydd cynlluniau a chamau sy'n cael eu cymryd i fodloni galw yn well. Hysbysir trosolwg a chraffu gan feincnodi cymharol a dysgu gan gyrff eraill pan fo'n briodol. |

| Cwestiynau archwilio | Meini prawf archwilio |
| --- | --- |
| argyfwng a llwybrau clinigol amgen? | • Mae trefniadau ar waith ar gyfer monitro a throsolwg o ddarbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd buddsoddiad mewn prosiectau gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys sicrhau gwerth am arian a pha wahaniaeth y mae'r prosiect wedi ei wneud. |

# Atodiad 3

## Ymateb y rheolwyr i argymhellion yr archwiliad

Mae **Arddangosyn 15** yn nodi ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion a wnaed oherwydd yr archwiliad hwn.

**Arddangosyn 15: ymateb y rheolwyr**

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Cyllid y Rhaglen Chwe Nod**<br>**A1** I gefnogi darpariaeth barhaus mentrau sy'n gysylltiedig â'r Chwe Nod, mae angen i'r Bwrdd Iechyd egluro a chadarnhau'r trefniadau ariannu ar gyfer cynlluniau y tu hwnt i fis Mawrth 2025. Dylai cynlluniau ar gyfer blynyddoedd y dyfodol hefyd nodi unrhyw anghenion cyllid y tu hwnt i'w dyraniad blynyddol presennol **(Arddangosyn 2).** | Derbyniwyd llythyr dyrannu cyllid y Chwe Nod 2025-26 gan Lywodraeth Cymru ar 14 Mawrth 2025. Rydym wrthi'n adolygu'r dyraniad hwn ar hyn o bryd ac yn ei gysoni â datblygiad cynllun cyflawni'r Chwe Nod y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2025-26, sydd ar y gweill. Un agwedd hanfodol ar y gwaith cynllunio hwn yw cadarnhau'r trefniadau ariannu, yn unol â'r blaenoriaethau gweinidogol. | Mai 2025 | Cyfarwyddwr Gweithrediadau ar gyfer Meddygaeth/ Chwe Nod trwy Fwrdd Cyflawni'r Chwe Nod |
| **Cyfeirio cleifion at y gwasanaethau cywir** | | Mehefin 2025 | |

| Argymhelliad | | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **A2** | I sicrhau bod cleifion yn derbyn y gofal brys a gofal mewn argyfwng sydd fwyaf priodol i'w hanghenion, dylai'r Bwrdd Iechyd gynnal trafodaethau â Llais a grwpiau cynrychioli cleifion eraill, fel sy'n briodol, i helpu i nodi lle mae angen cryfhau trefniadau gwybodaeth a chyfeirio cleifion presennol **(Paragraff 37)**. | Diolch am eich argymhelliad. Fel Bwrdd Iechyd, rydym yn gweithio'n agos gyda Llais ac yn gofyn am eu cyngor a'u cymorth yn rheolaidd i nodi meysydd i'w gwella. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn fel cam gweithredu. Mae Llais hefyd yn gweithio'n annibynnol o gwmpas ein meysydd clinigol ac yn ymgysylltu â chleifion yn uniongyrchol i gasglu adborth.<br>O ran cryfhau gwaith cyfeirio, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol trwy greu Un Pwynt Mynediad at gyfer pob mater sy'n gysylltiedig â gofal sylfaenol brys. Mae'r datblygiad hwn yn dilyn uno CAF24/7 gyda'n rhaglen Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys, lle mae clinigwyr CAF24/7 bellach yn gweithredu fel arweinwyr clinigol ar gyfer y modelau Canolfan Gofal Sylfaenol Brys. Mae'r integreiddiad hwn wedi caniatáu i ni sefydlu system atgyfeirio ddi-dor, sydd ar gael yn ystod a'r tu allan i oriau arferol, saith diwrnod yr wythnos, 24 awr y dydd. Mae'r gwasanaethau hyn eisoes wedi'u rhyng-gysylltu â'n Timau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod Meddygol a Llawfeddygol, Diogel yn y Cartref, ac Adnoddau Cymunedol.<br>Mae gan nyrsys brysbennu'r Adran Achosion Brys fynediad at y system Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys hefyd trwy lwybr mynediad a gytunwyd, felly gellir atgyfeirio'r holl gleifion sy'n hunan-gyflwyno yn yr Adran Achosion Brys sy'n bodloni'r meini prawf i frysbennu ffôn gyda chlinigydd mewn Canolfan Gofal Sylfaenol Brys.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn cefnogi ymgyrch gyfeirio a chyfathrebu â chleifion gadarn o'r enw | | Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gwasanaethau Cymunedol/ Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gofal Sylfaenol, Cymunedol, a Chanolradd |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | 'Dewis Sylfaenol'. Datblygwyd hon mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid mewnol ac allanol ac mae wedi esblygu i ystyried grwpiau penodol a allai ddefnyddio gofal brys a gofal mewn argyfwng ag ymgyrchoedd wedi'u targedu, fel myfyrwyr. | | |
| **Llwybrau Atgyfeirio**<br>**A3** I wella mynediad a defnydd o atgyfeiriadau i wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng amgen priodol, dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda staff allweddol, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, i ddatblygu mecanweithiau atgyfeirio sy'n eglur, wedi'u cyfathrebu'n dda ac sy'n gwbl hygyrch **(Paragraff 40)**. | Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed o weithredu Un Pwynt Mynediad cadarn (a amlygwyd uchod), ein huchelgais yw gwella'r galluoedd hyn ymhellach trwy ddatblygu Canolfan Lywio a Chanolfan Ddigidol. Bydd hyn yn galluogi brysbennu cyson ag ansawdd wedi'i sicrhau ac yn hwyluso atgyfeiriadau ymlaen, gan sicrhau bod cleifion yn derbyn y gofal cywir yn gyflym ac yn ddiogel, ble bynnag y maent yn mynd iddo. Bydd hyn yn parhau i ryng-gysylltu â'n hunedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, Diogel yn y Cartref, a'r Tîm Ymateb Cymunedol. Bydd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill hefyd yn cael eu hystyried yn rhan o'r gwaith hwn.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cyflwyno Llwybrau Cymunedol ac Iechyd i gynorthwyo clinigwyr trwy ddarparu mynediad at amrywiaeth o lwybrau y cytunwyd arnynt yn lleol, sy'n cwmpasu'r gwaith o asesu, rheoli, ac atgyfeirio cleifion.<br>Mae gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fynediad at ein Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod Meddygol ar hyn o bryd trwy lwybr a gytunwyd ar gyfer nifer o gyflyrau cleifion, yn ogystal â mynediad ffôn trwy Consultant Connect i Feddyg | Mai 2026 ar gyfer y Ganolfan Lywio. Datblygiad parhaus ar gyfer rhannau cyfansoddol o hyn. | Gofal Sylfaenol, Cymunedol, a Chanolradd a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau ar gyfer Meddygaeth |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | Ymgynghorol yn yr Adran Achosion Brys i drafod opsiynau ar gyfer triniaeth amgen ac atgyfeiriadau.<br>Menter ar y cyd rhwng yr Adran Achosion Brys ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yw'r Uned Ymateb Meddygon, sy'n dod â meddygon argyfwng i gartref claf – mae'r gwasanaeth hwn yn cadw cleifion yn eu cartrefi eu hunain yn ddiogel ac yn helpu i osgoi'r angen i dderbyn i'r ysbyty yn arwain at arosiadau hir yno o bosibl.<br>Canolfan amlasiantaeth wedi'i lleol yn yr Adran Achosion Brys yw Cyfannol, sydd â gwasanaethau wedi'u cydleoli sy'n cynorthwyo cleifion sy'n bresennol oherwydd trais domestig oedolion a'r glasoed a digwyddiadau treisgar eraill, y rhai sy'n mynd i'r Adran Achosion Brys yn aml, cleifion CAMHS/cyswllt seicolegol, gwasanaethau digartrefedd a'r Groes Goch – mae'r tîm hwn yn cynorthwyo cleifion i mewn i wasanaethau oddi wrth yr Adran Achosion Brys a derbyniad i'r ysbyty trwy gyd-greu cynlluniau cymorth clinigol, ymgysylltu mewn rhwydweithiau a darparu cymorth unigoledig. | | |
| **Cyfeiriadur Gwasanaethau**<br>**A4** I sicrhau bod staff iechyd a gofal yn gallu cyfeirio ac atgyfeirio pobl yn briodol i'r gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng cywir, dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>4.1. sicrhau bod Cyfeiriadur Gwasanaethau Ymddiriedolaeth | Rydym yn cydnabod y potensial ar gyfer mwy o gydweithredu ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i adolygu a gwella'r Cyfeiriaduron Gwasanaethau. Ein nod yw gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i adolygu'r cyfeiriaduron gwasanaethau presennol a llunio cynllun i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw'n gyfredol. | Mehefin 2025 ac yn barhaus | Wedi'i gyflawni drwy'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau ar gyfer Meddygaeth a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cynnwys yr wybodaeth fwyaf cyfredol am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng;<br>4.2. sicrhau bod Cyfeiriadur Gwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau cymunedol a thrydydd sector perthnasol;<br>4.3. sefydlu mecanwaith i gadw Cyfeiriadur Gwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn gyfredol, sy'n cynnwys nodi swyddog â chyfrifoldeb arweiniol am y dasg hon **(Paragraff 41)**. | | | ar gyfer Gofal Sylfaenol, Cymunedol, a Chanolradd trwy Fwrdd y Chwe Nod |
| **Adborth cleifion**<br>**A5** I sicrhau ei fod yn defnyddio adborth cleifion i ddeall a gwella mynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>5.1 sicrhau bod arolygon yn holi ymatebwyr am effeithiolrwydd llwybrau clinigol amgen; | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi llunio fframwaith adborth cleifion sy'n cwmpasu pob maes gofal, clinigol ac anghlinigol. Mae hyn yn cynnwys yr amgylchedd gofal, agwedd a chyfathrebu staff, gwaith tîm, mynediad at wasanaethau, cymryd rhan mewn penderfyniadau triniaeth, a'n gallu i ymateb yn brydlon a datrys problemau. Rydym yn defnyddio platfform electronig o'r enw CIVICA i gasglu adborth, ac mae cod QR ar gael mewn mannau aros i gleifion drwy'r Bwrdd Iechyd cyfan. Mae hyn | Parhaus | Cyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer Meddygaeth a Chyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer Gofal Sylfaenol, Cymunedol, a Chanolradd |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| 5.2 gweithio i gynyddu cyfraddau ymateb; a<br>5.3 ymateb yn eglur i ganfyddiadau mewn cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng **(Arddangosyn 11)**. | yn cynnwys mannau fel unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys, a Diogel yn y Cartref, sy'n cynnig opsiynau yn hytrach na'r Adran Achosion Brys.<br>Wedi hynny, rhennir adborth gyda'r Uwch Dîm ar gyfer pob un o'r ardaloedd, i adolygu ac i hysbysu gwaith cynlluniau gwelliant yn y dyfodol. Defnyddir adborth yn ein cynlluniau gwella yn yr Adran Achosion Brys.<br>Fodd bynnag, ceir lle i gryfhau'r broses adolygu mewn rhai meysydd, i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd ar sail adborth cleifion a'i fod yn cael ei ddefnyddio i wneud newidiadau. Ein nod fydd cynnwys adborth cleifion yn ein cynlluniau prosiect a gweithio'n agos gyda'r Uwch Dimau a'r Tîm Profiad Cleifion i roi proses fwy cadarn ar waith ar gyfer cynyddu cyfraddau ymateb a chynllunio gweithredol. | | |
| **Trosolwg a Chraffu**<br>**A6** I gryfhau ei allu i gydgysylltu cynlluniau strategol a newidiadau gwasanaeth ar gyfer ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel aelod o'i Fwrdd Cyflawni'r Chwe Nod **(Arddangosyn 12)**. | Yn rhan o'n hadolygiad diweddar o aelodaeth Bwrdd Cyflawni'r Chwe Nod, nodwyd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel rhanddeiliad allweddol ac felly bydd yn cael ei hychwanegu at y rhestr wahoddiadau o fis Ebrill 2025. | Ebrill 2025 | Gweinyddiaeth Bwrdd Cyflawni'r Chwe Nod |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| **Sicrhau cymaint o ddefnydd â phosibl o wasanaethau amgen**<br>**A7** I ddeall pa mor dda y mae'n defnyddio Unedau Mân Anafiadau i nodi cyfleoedd pellach i sicrhau bod y gwasanaeth hwn yn cael ei ddefnyddio cymaint â phosibl, dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys metrigau ar gyfraddau presenoldeb a throsglwyddiad i'w uned mân anafiadau mewn adroddiadau i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad **(Arddangosyn 12)**. | Rydym yn cadw metrigau ar bresenoldebau yn ein Hunedau Mân Anafiadau. Nid oes cludiant gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i'r Uned Mân Anafiadau annibynnol gan ei fod trwy apwyntiad yn unig trwy CAF247, ond fe'i defnyddir yn helaeth i osgoi galw am y brif Adran Achosion Brys. Rydym yn ffrydio cleifion sy'n hunan-gyflwyno â mân anafiadau, yn ogystal â chleifion ambiwlans sy'n ddigon iach i eistedd – hapus i roi adborth adrodd i'r pwyllgor yn ôl y gofyn. Rydym wedi ehangu ein cynnig mân anafiadau ymhellach drwy'r clinig diogel i ddychwelyd. | Ebrill 2025 ac yn barhaus | Cyfarwyddwr Cynllunio Gweithredol a Pherfformiad |
| **Gwerthuso manteision prosiectau**<br>**A8** I gryfhau ei waith adrodd ar y manteision a sicrhawyd o'i waith Rhaglen Chwe Nod a defnydd cysylltiedig o gyllid, dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a chyfathrebu canllawiau i staff ar sut i werthuso effeithiolrwydd prosiectau, mentrau a newidiadau gwasanaeth yn ymwneud â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng **(Arddangosyn 12)**. | Mae gan bob prosiect a ddatblygwyd o dan y Rhaglen Chwe Nod fetrigau ac amcanion wedi'u diffinio'n eglur, yr adroddir arnynt yn fisol yn rhan o'r Nodau Cenedlaethol. I gefnogi hyn a'r gwerthusiad effeithiol o brosiectau a mentrau eraill, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ac yn defnyddio sawl dangosfwrdd sy'n cynorthwyo i olrhain cynnydd a mesur effaith.<br>Rydym hefyd wedi datblygu Dangosfwrdd Chwe Nod yn Lightfoot, sy'n cael ei rannu a'i drafod ym mhob un o gyfarfodydd Bwrdd Cyflawni'r Chwe Nod. Defnyddir y data a'r wybodaeth hyn i gefnogi cynllunio pellach a modelu ar gyfer y dyfodol. | Bydd y strwythur â phwyslais newydd ar gyfer y Chwe Nod yn dechrau ym mis Ebrill. | Bwrdd Cyflawni'r Chwe Nod wedi'i gadeirio gan y Prif Swyddog Gweithredu a'i ddarparu gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau ar gyfer Meddygaeth a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau ar gyfer Gofal Sylfaenol, |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| | Yn rhan o weithrediad Blaenoriaethau Gweinidogol 2025-26, byddwn yn sicrhau bod pob Arweinydd Prosiect yn gyfarwydd â'r dulliau hyn. | | Cymunedol, a Chanolradd |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.